

May 2019 – January 2020  
Mai 2019 – Ionawr 2020

# ROOTS UNEARTHED

GREAT ACTS, GLOBAL SOUNDS & RELAXING ATMOSPHERE

## GWRANDO'R GWREIDDIAU

SIOEAU GWYCH, SEINIAU BYD-ENWOG AC AWYRGYLCH BRAF



MARTYN JOSEPH  
28.01.20



**St David's Hall**  
**Neuadd Dewi Sant**



Monday 20 May / Dydd Llun 20 Mai, 8pm



## ALAW

ALAW is fiddler Oli Wilson-Dixon, accordionist Jamie Smith and guitarist Dylan Fowler, three leading musicians who bring a wealth of experience to their shared passion for the traditional music of Wales. Whether unearthing rare gems or reimagining a well loved melody, they treat their music with a deftness and sensitivity that is thoroughly absorbing. Combined with powerful song writing and original tunes, this makes for a musical experience that will stay with the listener long after the concert has ended. With a long history of working together on projects such as The Devil's Violin, Szapora and Jamie Smith's Mabon they communicate their music with relaxed humour and a genuine affection that is truly infectious.

*ALAW – y ffidler Oli Wilson-Dixon, y canwr acordion Jamie Smith a'r gitarydd Dylan Fowler, tri cherddor o fri sy'n dwyn cyfoeth o brofiad i'w hawch ar y cyd am gerddoriaeth draddodiadol Cymru. Pa un a ydyn nhw'n cael hyd i berlau prin ynteu'n ail-ddychmygu alaw hoff, maen nhw'n trin eu cerddoriaeth â deheurwydd a thynerwch sy'n gwbl gyfareddol. Ar y cyd â sgrifennu caneuon grymus ac alawon gwreiddiol, mae yma brofiad cerddorol a erys yng nghof y gwrandäwr ymhell ar ôl diwedd y cyngerdd. A chanddyn nhw hanes hir cydweithio ar fentrau megis The Devil's Violin, Szapora a Jamie Smith's Mabon, maen nhw'n cyfleu eu cerddoriaeth â smaldod hamddenol a hoffter go iawn sy'n wirioneddol heintus.*

**Winner of the Best Instrumental Track category in the inaugural Wales Folk Awards.**

***Enillydd y category Cân Offerynnol Orau yn y Gwobrau Gwerin Cymru cyntaf.***

*'Truly remarkable! Magical...a force to be reckoned with!'*

**Frank Hennessey, BBC Radio Wales**

[www.alaw-band.com](http://www.alaw-band.com)



£3.50 pint promo/ cynnig peint £3.50

£16

Children 15 years and under / Plant 15 oed ac iau: £5

Concessions available / Gostyngiadau ar gael

Plus an optional £1.50 postage fee. / Ynghyd â ffi postio opsiynol o £1.50. Only one discount may apply to each ticket and proof of entitlement may be required upon ticket collection. / Dim ond un disgownt y tocyn y gellir ei ddefnyddio ac efallai bydd gofyn prawf o hawl pan gasglwch eich tocynnau.

Box Office / Swyddfa Docynnau: 029 2087 8444

Tuesday 4 June / Dydd Mawrth 4 Mehefin, 8pm



## BLAIR DUNLOP

Blair Dunlop is one of Britain's best kept musical secrets and 2019 looks set to be the year where he receives the recognition he deserves. A natural storyteller and gifted guitarist, his most recent album *Notes From An Island* was described by Australia's Daily Telegraph as 'a massively impressive collection of songs from a young man with talent to burn' and drew comparisons to the likes of Jackson Brown, Richard Thompson and Ralph McTell. A timely mix of socio-political insights, tender love tales and impressive virtuosic guitar playing, 'Notes From An Island' is very much an album reflecting the age in which it has been created.

---

*Mae Blair Dunlop yn un o gyfrinachau mwyaf cudd Prydain ond yn ôl pob golwg 2019 fydd y flwyddyn pan gaiff ei gydnabod yn ôl ei haeddiant. Dyma storiwr naturiol a gitarydd dawnus, a disgrifiwyd ei albwm diweddaraf Notes From An Island gan Daily Telegraph Awstralia yn 'massively impressive collection of songs from a young man with talent to burn' a'i gymaru â Jackson Brown, Richard Thompson a Ralph McTell a'u tebyg. Yn gymysgedd amserol o graffter cymdeithasol-wleidyddol, straeon caru tyner a chanu gitâr pencampwriaethol, mae Notes From An Island yn anad dim yn albwm sy'n ddrych o'r oes lle'i crëwyd.*

*'An adept guitarist whose epic songwriting instincts prevail on a personal-political fourth album.'*

MOJO

[www.blairdunlop.com](http://www.blairdunlop.com)



£3.50 pint promo / cynnig peint £3.50

£14 in advance, £15 on the day / £14 ymalen llaw, £15 ar y diwrnod

Children 15 years and under / Plant 15 oed ac iau: £5

Concessions available / Gostyngiadau ar gael

React (ages 16-25, see website for how to join/ 16-25 oed, gweler ar y wefan sut i ymuno): £10

Plus an optional £1.50 postage fee. / Ynghyd â ffi postio opsiynol o £1.50. Only one discount may apply to each ticket and proof of entitlement may be required upon ticket collection. / Dim ond un disgownt y tocy'n y gellir ei ddefnyddio ac efallai bydd gofyn prawf o hawl pan gasglwch eich tocynnau.

[www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk)

Tuesday 9 July / Dydd Mawrth 9 Gorffennaf, 8pm



Photo credit/Llun gan: Emyr Young – Lleuven Siwddio

## LLEUWEN

Lleuven Steffan was raised to the sound of words and music, singing on her father's recordings as a young girl and also in the choir of the renowned Ysgol Glanaethwy at Bangor. Always keen to broaden her musical horizons, she developed her unique voice with the jazz group *Acoustique* and her first solo albums *Duw A Wyr* and *Penmon*. Her latest recording *Gwn Glân Beibl Budr* (Clean Gun Dirty Bible) takes the Welsh hymn book and throws it into the Age of Misinformation. Live, raw and often improvised it's her most rooted and experimental album to date. This is an unmissable opportunity to witness a performance of this powerful and moving album.

---

*Magwyd Lleuven Steffan yn sain geiriau a cherddoriaeth, yn canu ar recordiadau ei thad pan oedd yn ferch fach a hefyd yng nghôr Ysgol Glanaethwy fawr ei bri ym Mangor. Roedd bob amser yn awyddus i ehangu ei gorwelion cerddorol a meithrinodd ei llais dihafal ei hun gyda'r grp jazz Acoustique a'i halbymau solo cyntaf Duw A Wyr a Penmon. Mae ei recordiad diweddaraf Gwn Glân Beibl Budr yn cymryd y llyfr emynau Cymraeg ac yn ei luchio i Oes Camhysbysrwydd. Yn fyw, yn gignoeth ac yn aml o'r frest, dyma ei halbwm dyfnaf ei wreiddiau a mwyaf arloesol hyd yma. Dyma gyfle rhy dda i'w golli i weld perfformio'r albwm grymus a gwfreiddiol yma.*

**Winner of the Best Original Welsh Language Song category in the inaugural Wales Folk Awards.  
Enillydd y categori Cân Gymraeg Wreiddiol Orau yn y Gwobrau Gwerin Cymru cyntaf.**

*'This is an album of raw, rooted and radiant music.'*

**From the Margins**

[www.lleuven.com](http://www.lleuven.com)



£3.50 pint promo / cynnig peint £3.50

£15 in advance, £16 on the day / £15 ymalen llaw, £16 ar y diwrnod

Children 15 years and under / Plant 15 oed ac iau: £5

Concessions available / Gostyngiadau ar gael

React (ages 16-25, see website for how to join/ 16-25 oed, gweler ar y wefan sut i ymuno): £10

Plus an optional £1.50 postage fee. / Ynghyd â ffi postio opsiynol o £1.50. Only one discount may apply to each ticket and proof of entitlement may be required upon ticket collection. / Dim ond un disgownt y tocyn y gellir ei ddefnyddio ac efallai bydd gofyn prawf o hawl pan gasglwch eich tocynnau.

Box Office / Swyddfa Docynnau: 029 2087 8444

## MAIN AUDITORIUM EVENT / DIGWYDDIAD YN Y PRIF AWDITORIWM

Thursday 25 July / Dydd Iau 25 Gorffennaf, 7.30pm



## FOLK PROM / PROM GWERIN: THE SPOOKY MEN'S CHORALE

### Welsh Proms Cymru 2019

The Spooky Men's Chorale are the gift that keeps on giving... as thunderous as a herd of wildebeest, as sly as a wagonload of Spike Milligans and as sonorous as a cloister of monks. The manchoir emerged blinking-eyed from the Blue Mountains of New South Wales fifteen years ago and armed with no more than their impressively cavernous vocal chords, a nice line in deadpan, improbable facial hair and an ill-matched set of hats, have been gleefully wooing audiences throughout Australia, NZ and the UK ever since.

Renowned for a combination of Visigothic bravado, absurdist humour and eye-moistening tenderness, the Spookies, in middle age, are more masters of their territory than ever before, with five critically-acclaimed albums under their belt.

---

*Y rhodd sy'n dal i roddi ydi'r Spooky Men's Chorale... mor daranol â gre o wildebeest, mor gyfrwys â llond wagen o Spike Milliganiaid ac mor soniarus â llond clasty o fynaich. Bymtheng mlynedd yn ôl y daeth y côr meibion i'r fei dan smicio llygaid o Fynyddoedd Gleision De Cymru Newydd a chanddynt ddim mwy ar eu cyfrif na'u tannau lleisiol enfawr, dawn dweud di-wên, locsys digon i ddychryn y saint a set o hetiau anghymharus ac maen nhw'n swyno cynulleidfaoedd drwy hyd a lled Awstralia, Seland Newydd a gwledydd Prydain byth ers hynny.*

*Maen nhw'n enwog ar gorn cyfuniad o ryfyg fel y Gwylliaid Cochion, smaldod hurt bost a thynnerwch sy'n dwyn dagrau i'r llygaid ac yn eu canol oed mae'r Spookies yn fwy o feistri ar eu tiriogaeth nag erioed o'r blaen, a chanddyn nhw bum bum albwm i'w henw sy'n fawr eu clod gan y beirniaid.*



£24.50

Children under 16 / Plant dan 16 oed: £6.50

Under 25s / Dan 25 oed: £12.25

Concessions available / Gostyngiadau ar gael

Plus an optional £1.50 postage fee. / Ynghyd â ffi postio opsiynol o £1.50. Only one discount may apply to each ticket and proof of entitlement may be required upon ticket collection. Dim ond un disgownt y tocyn y gellir ei ddefnyddio ac efallai bydd gofyn prawf o hawl pan gasglwch eich tocynnau.

[www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk)

Tuesday 10 September / Dydd Mawrth 10 Medi, 8pm



Photo credit/Llun gair: Judith Burrows

## MARTIN SIMPSON

The remarkable intimate solo performances of guitar virtuoso Martin Simpson continue to go from strength to strength, with every gig a masterclass giving audiences passion, sorrow, love, beauty, tragedy and majesty through his playing. Four decades after recording his first album, *Golden Vanity*, Martin is known as a guitarist of formidable talent. Equally at home playing English traditional folk, American folk and blues and his own compositions, he is consistently named as one of the very finest fingerstyle guitar players in the world. Universally acclaimed as one of the finest ever acoustic and slide guitar players and a fine banjo-picker to boot, his solo shows bear witness to an artist at the very top of his game.

*Mae perfformiadau solo hynod ac agosatoch y pencampwr gitâr Martin Simpson yn dal i fynd o nerth i nerth, a phob gig yn ddosbarth meistr sy'n rhoi i'r cynulleidfaoedd angerdd, gofid, cariad, harddwch, trystyd a mawredd drwy ei chwarae. Ddeugain mlynedd ar ôl iddo recordio'i albwm cyntaf, Golden Vanity mae Martin yn cael y gair o fod yn gitarydd aruthrol o ddawnus. Mae'r un mor gartrefol yn chwarae canu gwerin traddodiadol Lloegr, canu gwerin a chanu'r felan America a'i gyfansoddiadau ei hun a sonnir amdano'n gyson yn un o'r canwyr gitâr dull bysedd gorau oll yn y byd. Mae'n cael clod drwy'r gwledydd am fod yn un o'r goreuon oll ymhlith canwyr gitâr acwstig a llithr, ac at hynny'n bigwr banjo tan gamp, ac mae ei sioe solo'n dyst ei fod yn artist ar ei orau oll.*

*'Simpson has become a fine interpreter of traditional and other songs, as well as a notable writer of his own.'*

**The Times**

[www.martinsimpson.com](http://www.martinsimpson.com)



£3.50 pint promo / cynnig peint £3.50

£16 in advance, £17 on the day / £16 ymalen llaw, £17 ar y diwrnod

Children 15 years and under / Plant 15 oed ac iau: £5

Concessions available / Gostyngiadau ar gael

React (ages 16-25, see website for how to join/ 16-25 oed, gweler ar y wefan sut i ymuno): £10

Plus an optional £1.50 postage fee. / Ynghyd â ffi postio opsiynol o £1.50. Only one discount may apply to each ticket and proof of entitlement may be required upon ticket collection. / Dim ond un disgownt y tocyn y gellir ei ddefnyddio ac atallai bydd gofyn prawf o hawl pan gasglwch eich tocynnau.

Box Office / Swyddfa Docynnau: 029 2087 8444

## MAIN AUDITORIUM EVENT / DIGWYDDIAD YN Y PRIF AWDITORIWM

Saturday 21 September / Dydd Sadwrn 21 Medi, doors/drysau 7pm



### FISHERMAN'S FRIENDS Keep Hauling

The original 'buoy band', bound together by lifelong friendship and shared experience, for 30 years the Fisherman's Friends have met on the Platt on the harbour in their native Port Isaac to sing the songs of the sea. A decade ago they were persuaded to sign the record deal that saw their album *Port Isaac's Fisherman's Friends* go Gold as they became the first ever traditional folk act to land a UK top ten album.

The incredible true story of how that happened is told in the hit feel good movie of the year *Fisherman's Friends*, starring Daniel Mays, James Purefoy, Tuppence Middleton and Noel Clarke with cameo appearances from the group whose voices also appear on the soundtrack. What's more, in an incredible twist of fate, Pete Hicks who appears in the on-screen Fisherman's Friends has now joined the actual line up and will be out on tour with the boys this autumn. The new film was released in cinemas across the UK in March 2019.

---

*Dyma'r 'band bwi' gwreiddiol, ynghlwm gan gyfeillgarwch oes a phrofiad ar y cyd, sef y Fisherman's Friends sy'n cyfarfod ar y Platt ar yr harbwr yn nhref eu geni Port Isaac ers deng mlynedd ar hugain i ganu caneuon y môr. Ddeng mlynedd yn ôl cafwyd ganddyn nhw lofnodi'r cytundeb recordio a welodd eu halbwm Port Isaac's Fisherman's Friends yn cyrraedd safle Aur a hwythau'n dod yr act werin draddodiadol gyntaf erioed i gael albwm yn neg uchaf gwledydd Prydain.*

*Adroddir stori wir sut y digwyddodd hynny yn ffilm eli i'r galon fwyaf llwyddiannus y flwyddyn Fisherman's Friends, yn serennu Daniel Mays, James Purefoy, Tuppence Middleton a Noel Clarke ac ymddangosiadau cameo gan y grŵp y mae eu lleisiau hefyd i'w clywed ar y trac sain. Ar ben hynny, fel y bydd tynged yn rhoi rhyw dro anhygoel ar bethau, mae Pete Hicks sy'n ymddangos ar Fisherman's Friends ar y sgrîn bellach wedi ymuno â'r gymanfa ei hun a bydd ar daith gyda'r hogiau yn yr hydref. Rhyddheir y ffilm newydd mewn pictiwrws drwy hyd a lled gwledydd Prydain ddydd Gwener 15fed Mawrth.*



£27.50 | £35.00

Plus an optional £1.50 postage fee. / Ynghyd â ffi postio opsiynol o £1.50. Only one discount may apply to each ticket and proof of entitlement may be required upon ticket collection. Dim ond un disgownt y tocyn y gellir ei ddefnyddio ac efallai bydd gofyn prawf o hawl pan gasglwch eich tocynau.

[www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk)

# MAIN AUDITORIUM EVENT / DIGWYDDIAD YN Y PRIF AWDITORIWM

Monday 11 November / Dydd Llun 11 Tachwedd, 7.30pm



## CELTIC WOMAN Ancient Land

Multi-platinum music sensation, Celtic Woman returns with their stunning album *Ancient Land*.

Featuring the incredible vocal talents of Mairéad Carlin, Éabha McMahon, the sensational Tara McNeill on fiddle and newest member Megan Walsh, the group are back for the first time since the Grammy-nominated *Destiny* in 2016.

A one-of-a-kind live act, Celtic Woman combines the country's finest musical talents with epic stage production for a uniquely inspiring live experience. As a touring powerhouse, they have performed for over four million fans across six continents including a devoted following in America.

The show is renowned for its high-quality entertainment, exceptional musical performances and stunning visual productions, enthralling audiences of all ages. *Ancient Land* is the latest chapter of their extraordinary musical journey.

---

*Dyma'r swae luos-blatinwm, Celtic Woman, yn ei hôl ac i'w chanlyn ei halbwm digon o ryfeddod Ancient Land.*

*Mae'r grp yn cynnwys doniau lleisiol anhygoel Mairéad Carlin ac Éabha McMahon, Tara McNeill yn creu cyffro ar y ffidil a'r aelod diweddaraf Megan Walsh, a dyma'i weld yn ei ôl am y tro cyntaf ers yr enwebai Grammy Destiny yn 2016.*

*Mae Celtic Woman yn act fyw ar ei phen ei hun, yn cyfuno doniau cerddorol gyda goreuon y genedl â chynhyrchu llwyfan aruthrol i gyflwyno profiad byw sy'n ysbrydoli'n ddihafal. Yn gorwynt teithiol, perfformiodd y grp i dros bedair miliwn o selogion ar hyd ac ar led chwe chyfandir, yn cynnwys dilynwy'r triw yn America.*

*Mae'r sioe'n adnabyddus yn sgîl ei difyrro graenus, ei pherfformiadau cerddorol eithriadol a'i chynrychiadau gweledol drawiadol, sy'n cyfareddu cynulleidfaoedd o bob oed. Ancient Land ydi pennod ddiweddaraf eu taith gerddorol ryfeddol.*



£37.50 | £41.00

Wheelchair user plus one companion (please contact Box Office on 02920 878444) /

Defnyddwyr cadair olwyn ac un cydymaith (ffoniwch y Swyddfa Docynnau ar 029 2087 8444);

£37.50 per ticket / pob tocy'n.

Plus an optional £1.50 postage fee. / Ynghyd â ffi postio opsiynol o £1.50. Only one discount may apply to each ticket and proof of entitlement may be required upon ticket collection. Dim ond un disgownt y tocy'n y gellir ei ddefnyddio ac efallai bydd gofyn prawf o hawl pan gasglwch eich tocy'nau.

Box Office / Swyddfa Docynnau: 029 2087 8444

Tuesday 19 November / *Dydd Mawrth 19 Tachwedd, 8pm*



## JACKIE OATES

A singer and fiddle player hailing from Staffordshire, Jackie Oates is a name synonymous with the reinvigoration of English folk music, beguiling audiences with a delicate balance of tradition and reinvention. Her mellifluous voice and imaginatively plaintive fiddle style has won her several BBC Folk Awards during a 10-year recording career that began as a member of the nascent Unthanks and has continued with six acclaimed solo albums. A member of the Imagined Village collective she has also collaborated with Alasdair Roberts, Belinda O'Hooley and her brother Jim Moray on material ranging from traditional ballads to eerie lullabies and rich contemporary songs, earning her a fan base beyond the folk scene she grew up in.

---

*Canwr a ffidler sy'n hanu o Swydd Stafford ydi Jackie Oates a'i henw'n gyfystyr ag ailfywiogi canu gwerin Lloegr, yn difyrro cynulleidfaoedd â chymbwysedd cain traddodiad ac ailddyfeisio. Bu ei llais persain a'i harddull ffidil ddychmygus o wylfodus yn gyfrwng ennill iddi sawl Gwobr Canu Gwerin gan y BBC yn ystod gyrfa recordio ddeng mlynedd a gychwynnodd pan oedd yn aelod o Unthanks ar eu dechrau ac a aeth rhagddi â chwe albwm solo. Mae'n aelod o'r gydweithfa Imagined Village a chydweithredodd hefyd ag Alasdair Roberts, Belinda O'Hooley a'i brawd Jim Moray ar ddeunydd yn amrywio o faledi traddodiadol i hwangerddi iasol a chaneuon cyfoes soniarus, gydag ennill iddi selogion y tu hwnt i'r sîn gwerin lle daeth i oed.*

*'Oates remains the sweetest voice of her generation of English folkies.'*

**Independent On Sunday**

[www.jackieoates.co.uk](http://www.jackieoates.co.uk)



£3.50 pint promo / cynnig peint £3.50

£13 in advance, £14 on the day / £13 ymalen llaw, £14 ar y diwmod

Children 15 years and under / Plant 15 oed ac iau: £5

Concessions available / Gostyngiadau ar gael

React (ages 16-25, see website for how to join/ 16-25 oed, gweler ar y wefan sut i ymuno): £10

Plus an optional £1.50 postage fee. / Ynghyd â ffi postio opsiynol o £1.50. Only one discount may apply to each ticket and proof of entitlement may be required upon ticket collection. / Dim ond un disgownt y tocyn y gellir ei ddefnyddio ac efallai bydd gofyn prawf o hawl pan gasglwch Eich tocynnau.

[www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk)

## MAIN AUDITORIUM EVENT

Tuesday 28 January, 7.30pm



### MARTYN JOSEPH Winter Tour

Martyn Joseph is a unique and mind blowing artist. Take everything you think you know about singer songwriters... and rip it up. For one man and a guitar he creates a performance with a huge far-reaching sound that is energetic, compelling and passionate. Be it to two hundred people or twenty thousand, he blows the crowd away night after night. 2018 saw him honoured with a "Spirit of Folk" Award by Folk Alliance International in Kansas USA and he also received Fatea magazine's "Lifetime Achievement Award" here in the UK, and in January 2019, he released his critically acclaimed album *Here Come The Young*, of which Uncut magazine said **'He's never sounded more potent than he does here'**.

He is gifted with the rare ability to speak to the soul with his expressive and poignant lyrics and has a career spanning 30 years, 32 albums, over a half a million record sales and thousands of live performances.

Compared to Bruce Springsteen, John Mayer, Bruce Cockburn and Dave Matthews, he has created his own style and reputation as a mesmerizing live performer and stands in his own right, built on a reputation for giving what thousands have described as the best live music experience of their lives.

A unique talent driven by passion, social awareness and love for his trade, he's a jaw dropping guitar player who has developed a unique percussive style, teamed up with a powerful show stopping voice, and has been called 'The Welsh Springsteen'.

Concerned with making music that is relevant and vital to his audience, he engages with challenging narratives tackling the complexity of the human condition, underpinned with a promise of hope. In his own words "Really what I do is to try and write songs that might step up and make some sense of a moment in time. A good song makes you feel like you're not alone in the world."

He is hailed as a raconteur, weaving tales on topical concerns, as well as stories on the fragility of love, with a magical ability to reach out to his listeners through his passion and humour. Stunning reviews single him out as an unmissable solo performer whose music stays with you long after the show has ended.

**Winner of the Best Original English Language Song category in the  
inaugural Wales Folk Awards.**

*'Stunning, heartfelt music'*

**Bob Harris BBC Radio 2**

Box Office / Swyddfa Docynnau: 029 2087 8444

# DIGWYDDIAD YN Y PRIF AWDITORIWM

Dydd Mawrth 28 Ionawr, 7.30pm

Mae **Martyn Joseph** yn artist syfrdanol sy'n hollol ar ei ben ei hun. Meddyliwch am bopeth wyddoch chi am ganwyr-gyfansoddwyr...a'i rwygo'n ddiplau mân. O un dyn a gitâr mae'n creu perfformiad ac iddo sain bellgyrhaeddol enfawr sy'n egniol, yn gymhellol ac yn angerddol. Boed i ddau gant o bobol neu ugain mil, mae'n ysgubo'r dyrfa'r naill noson ar ôl y llall.

Yn 2018 fe'i hanrhydeddwyd â Gwobr "Ysbryd Canu Gwerin" gan Folk Alliance International yn Kansas, yr Unol Daleithiau, derbyniodd hefyd Wobr "Gorchest Oes" yma yng ngwledydd Prydain ac ym mis Ionawr 2019 rhyddhau ei albwm *Here Come The Young* oedd yn fawr ei glod gan y beirniaid — meddai cylchgrawn Uncut **"He's never sounded more potent than he does here"**.

Mae ganddo ddawn brin, sef gallu llefaru â'r enaid â geiriau cyfleugar a dwysbigol ei ganeuon ac mae ei yrfa ar fynd ers dros ddeng mlynedd ar hugain, deuddeg albwm ar hugain, gwerthiannau recordiau dros hanner miliwn a miloedd o berfformiadau byw.

O'i gymharu â Bruce Springsteen, John Mayer, Bruce Cockburn a Dave Matthews, creodd ei arddull ei hun a chael y gair o fod yn berfformiwr byw cyfareddol a saif yn ei rinwedd ei hun, ar sylfaen yr enw sydd iddo o roi'r hyn mae miloedd wedi'i alw'n brofiad cerddoriaeth fyw gorau'u hoes.

Mae'n ddawn heb ei hail a yrrir gan angerdd, ymwybyddiaeth gymdeithasol a chariad at ei grefft, yn ganwr gitâr digon i'ch llorio chi a feithrinodd arddull daro ddihafal, ynghyd â môr o lais grymus digon i stopio'r sioe, ac fe'i galwyd yn 'Springsteen Cymru'.

Ar gerddora sy'n berthnasol ac yn fyw i'w gynulleidfa mae â'i fryd ac mae'n mynd i'r afael â themâu hergar sy'n ymgodymu â chymhlethdod cyflwr dyn ac oddi danynt addewid gobaith. Yn ei eiriau ei hun "Really what I do is to try and write songs that might step up and make some sense of a moment in time. A good song makes you feel like you're not alone in the world."

Fe'i croesawir yn adroddwr sy'n gwau straeon pryderon yr oes sydd ohoni, yn ogystal â hanesion breuder cariad, a chanddo ddawn hudol cyffwrdd â'i wrandawyr drwy ei angerdd a'i smaldod. Mae adolygiadau'n ei ganmol i'r cymylau, yn berfformiwr solo rhy dda i'w gollu y mae ei gerddoriaeth yn aros yn y cof am hydoedd ar ôl diwedd y sioe.

## Enillydd y category Cân Saesneg Wreiddiol Orau yn y Gwobrau Gwerin Cymru cyntaf.

*'He's never sounded more potent than he does here.'*

**Uncut**

[www.martynjoseph.net](http://www.martynjoseph.net)



£18.50 in advance, £19.50 on the day / £18.50 ymalen llaw, £19.50 ar y diwrnod

Children 15 years and under / Plant 15 oed ac iau: £5

Concessions available / Gostyngiadau ar gael

React (ages 16-25, see website for how to join/ 16-25 oed, gweler ar y wefan sut i ymuno): £10

Plus an optional £1.50 postage fee. / Ynghyd â ffi postio opsiynol o £1.50. Only one discount may apply to each ticket and proof of entitlement may be required upon ticket collection. Dim ond un disgownt y to cyn y gellir ei ddefnyddio ac efallai bydd gofyn prawf o hawl pan gasglwch eich tocynnau.

[www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk)

# WHAT'S ON / AR FYND

May 2019 – January 2020 / *Mai 2019 – Ionawr 2020*

## ALAW

Monday 20 May / *Dydd Llun 20 Mai, 8pm*

## BLAIR DUNLOP

Tuesday 4 June / *Dydd Mawrth 4 Mehefin, 8pm*

## LLEUWEN

Tuesday 9 July / *Dydd Mawrth 9 Gorffennaf, 8pm*

## FOLK PROM/ PROM YR GWERIN THE SPOOKY MEN'S CHORALE

WELSH PROMS CYMRU 2019

Thursday 25 July / *Dydd Iau 25 Gorffennaf, 7.30pm*

## MARTIN SIMPSON

Tuesday 10 September / *Dydd Mawrth 10 Medi, 8pm*

## FISHERMAN'S FRIENDS

Saturday 21 September / *Dydd Sadwrn 21 Medi, doors / drysau, 7pm*

## CELTIC WOMAN

Monday 11 November / *Dydd Llun 11 Tachwedd, 7.30pm*

## JACKIE OATES

Tuesday 19 November / *Dydd Mawrth 19 Tachwedd, 8pm*

## MARTYN JOSEPH

Tuesday 28 January / *Dydd Mawrth 28 Ionawr, 7.30pm*



**21.05.19 | 7.30pm**

---

## SANDBOX PERCUSSION

---

'revitalising the world of contemporary music [with] jaw-dropping virtuosity.'  
Washington Post

£14.00  
Students / Myfyrwyr &  
Under 16s / *Dan 16 oed* £5.00



VALE OF GLAMORGAN  
FESTIVAL / GŴYL  
BRO MORGANNWG



**St David's Hall**  
Neuadd Dewi Sant

**029 2087 8444**

[www.stdavidshallcardiff.co.uk](http://www.stdavidshallcardiff.co.uk)